# Araith y Frenhines Tachwedd 2009

**Wales Office | Swyddfa Cymru**

| Mesur | Diben | Goblygiadau i Gymru |
|---|---|---|
| **Y Mesur Gwasanaethau Ariannol** | Bydd y Mesur yn cryfhau'r system ariannol ac yn parhau i ymateb i'r argyfwng ariannol byd-eang i osod y sylfeini ar gyfer adferiad a llwyddiant busnesau yn y DU. | Yn berthnasol i Gymru. |
| **Y Mesur Cyfrifoldeb Ariannol** | Nod yw Mesur yw lleihau'r diffyg cyllidebol, gan sicrhau bod y ddyled genedlaethol yn parhau'n gynaliadwy yn y tymor canolig. | Yn berthnasol i Gymru. |
| **Y Mesur Gofal Personol yn y Cartref** | Nod y Mesur hwn yw darparu gofal personol a chymdeithasol yn ddi-dâl yn eu cartref am gyfnod amhenodol i'r rhai hynny yn Lloegr sydd â'r angen mwyaf. | Bydd gweinidogion Cymru'n cael yr un pŵer â'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau yn y maes hwn. |
| **Y Mesur Plant, Ysgolion a Theuluoedd** | Bydd y Mesur yn codi safonau mewn ysgolion, gan roi mwy o bŵer a gwybodaeth i rieni ac yn gweithredu i amddiffyn plant agored i niwed. | Mae'r Mesur yn cynnwys pŵer fframwaith i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol ar gyfer addysg yn y cartref.<br><br>Ceir dwy ddarpariaeth gyfatebol arall ar gyfer Cymru sy'n gysylltiedig â rhwymedigaeth ar ysgolion i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru, a hefyd, un ar wahân, i rannu gwybodaeth i ddibenion diogelu plant. |
| **Y Mesur Troseddau a Diogelwch** | Bydd y Mesur yn diogelu cymunedau ymhellach rhag amrywiaeth o fygythiadau a cham-fanteisio ariannol, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Yn berthnasol i Gymru. |
| **Y Mesur Economi Ddigidol** | Bydd y Mesur yn sicrhau safle'r Deyrnas Unedig fel un o brif economïau gwybodaeth ddigidol y byd, ac yn bwrw ymlaen â pholisi diwydiannol gweithredol i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau'r chwyldro digidol. | Yn berthnasol i Gymru. |
| **Y Mesur Ynni** | Bydd y Mesur yn darparu mecanwaith cymorth ariannol i gyflwyno dal carbon ar raddfa fasnachol fawr a phrosiectau | Yn berthnasol i Gymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | storio arddangos. Bydd hefyd yn cryfhau pwerau'r rheoleiddwyr i sicrhau bod tariffau cymdeithasol ar gyfer cyflenwyr ynni'n cael eu pennu i gynorthwyo'r sawl sydd mewn perygl o brofi tlodi tanwydd. Bydd y Mesur hefyd yn cynyddu dyletswyddau'r rheoleiddiwr, OFGEM, i sicrhau ei fod yn ystyried newid yn yr hinsawdd ac yn diogelu'r defnyddiwr. | |
| **Y Mesur Rheoli Dŵr a Llifogydd** | Bydd y Mesur yn cryfhau gallu'r Deyrnas Unedig i wrthsefyll y bygythiad o lifogydd ac i roi sylw i'r trallod a'r amhariad ar aelwydydd, busnesau a'r economi y gall llifogydd ei achosi. Mae'n gosod amrywiaeth o bwerau newydd ar Weinidogion, Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol ac ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth. | Bydd darpariaethau sy'n ymwneud â rheoli risg o lifogydd ac erydiad arfordirol yn gwneud Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am baratoi strategaeth genedlaethol ac am gymeradwyo strategaethau lleol i reoli risg o lifogydd; byddant hefyd yn gallu gwneud rheoliadau ynghylch gweithdrefnau'n ymwneud â dynodi risgiau o lifogydd ac erydiad arfordirol.<br><br>Bydd darpariaethau eraill ar gyfer Cymru'n galluogi Gweinidog y Gwasanaeth Sifil i gyhoeddi codau ymddygiad ar wahân i weision sifil a chynghorwyr arbennig Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru); bydd yn ofynnol i Brif Weinidog Cymru adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad ar gynghorwyr arbennig.<br><br>Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau ynghylch darpariaeth seilwaith dŵr a charthffosiaeth, a all olygu y bydd yn ofynnol i roi prosiectau allan i dendr. Gwneir rheoliadau gan Weinidogion Cymru ynghylch prosiectau er budd ymgymerwyr dŵr Cymru, ac ar y cyd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â phrosiectau er budd ymgymerwyr dŵr Cymru a Lloegr.<br><br>Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i addasu amgylchiadau lle gall ymgymerwyr dŵr osod gwaharddiadau dros dro ar ddefnydd dŵr.<br><br>Bydd darpariaethau'n ymwneud â draeniau cynaliadwy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru, gan gynnwys cyhoeddi safonau a chanllawiau cenedlaethol. |
| **Y Mesur Cydraddoldeb (cario drosodd)** | Nod y Mesur yw hyrwyddo tegwch a chyfle cyfartal; mynd i'r afael ag anfantais a gwahaniaethu; ac i foderneiddio a chryfhau'r gyfraith i'w gwneud yn addas ar gyfer yr heriau a | Bydd Gweinidogion Cymru'n cael pŵer i osod dyletswyddau cydraddoldeb penodol ychwanegol ar gyrff cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | wynebir gan ein cymdeithas heddiw ac yn y dyfodol. | datganoledig cyrff trawsffiniol. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu dynodi cyrff strategol sy'n atebol i'r ddyletswydd i leihau anghydraddoldebau economaidd gymdeithasol. |
| **Y Mesur Tlodi Plant (cario drosodd)** | Bydd y Mesur yn ategu ymrwymiad y Llywodraeth i bennu targed i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Bydd hyn yn golygu mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi yn hytrach na thrin y symptomau'n unig. | Gall Gweinidogion Cymru benodi Aelod ar gyfer Comisiwn Tlodi Plant y DU. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw strategaeth tlodi plant Cymru mewn cof wrth baratoi strategaeth DU gyfan. |
| **Y Mesur Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu (cario drosodd)** | Bydd y Mesur yn cryfhau'r Senedd ac yn gwneud y Llywodraeth yn fwy atebol i'r bobl mae'n eu gwasanaethu. Bydd y Mesur yn adeiladu ar weledigaeth y Llywodraeth fel yr amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd "Governance of Britain" a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog fis Gorffennaf. | Mae'r Mesur yn cynnwys pŵer fframwaith i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar lywodraethu a strwythurau sefydliadol Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>Mae tair darpariaeth arall ar gyfer Cymru a fydd yn galluogi Gweinidog y Gwasanaeth Sifil i gyhoeddi codau ymddygiad ar wahân i weision sifil a chynghorwyr arbennig Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru); bydd yn ofynnol i Brif Weinidog Cymru adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad ar gynghorwyr arbennig.<br><br>Mae'n cyflwyno cyfyngiad amser o flwyddyn ar hawliadau hawliau dynol sy'n cael eu dwyn yn erbyn Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru<br><br>Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi cyrff fel y bydd amcangyfrifon eu gwariant yn cael eu cynnwys yng nghynnig Cyllideb flynyddol y Cynulliad. |
| **Y Mesur Llwgrwobrwyaeth** | Bydd y Mesur yn moderneiddio'r gyfraith ar lwgrwobrwyaeth i hybu'r safonau moesegol uchaf mewn busnes a bywyd cyhoeddus ac i alluogi erlynwyr a llysoedd i ddelio'n effeithiol â llwgrwobrwyaeth. | Yn berthnasol i Gymru. |
| **Y Mesur Arfau Clwstwr (Gwaharddiadau)** | Bydd y Mesur yn ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio, cynhyrchu, caffael neu drosglwyddo arfau clwstwr, er mwyn gweithredu'r gwaharddiadau a osodwyd gan Gonfensiwn Oslo ar Arfau Clwstwr. | Yn berthnasol i Gymru. |
| **Mesur Aelodau** | Bydd y Mesur yn caniatáu i Gynulliad Gogledd Iwerddon | Nid yw'n berthnasol i Gymru. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynulliad Gogledd Iwerddon** | ddirprwyo pwerau sy'n ymwneud â phennu cyflogau a threuliau ei aelodau. | |

## Mesurau Drafft

| Mesur | Diben |
|---|---|
| **Mesur Drafft Cyfrifoldeb am Iechyd Anifeiliaid a Rhannu Costau** | Bydd y Mesur drafft yn creu mecanweithiau a dulliau i rannu cyfrifoldeb a chostau am reoli clefydau anifeiliaid rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant ffermio. |
| **Mesur Drafft Gwariant Datblygu Rhyngwladol** | Bydd y Mesur drafft yn cynyddu gwariant ar gymorth i'r gwledydd tlotaf i 0.7% o'r incwm gwladol crynswth. |
| **Mesur Drafft Tŷ'r Arglwyddi** | Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyflwyno diwygiadau sylweddol i Dŷ'r Arglwyddi a bydd yn cyflwyno diwygiadau pellach drwy'r Mesur Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu. I gwblhau'r cam olaf hwn o'r diwygio, bydd y Llywodraeth wedyn yn amlinellu cynigion ac yn cyhoeddi mesur drafft cyn y Nadolig ar gyfer ail siambr lai ac un sydd wedi'i chyfansoddi'n ddemocrataidd. |
| **Mesur Drafft yr Antarctig** | Bydd y Mesur drafft yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr Antarctig y DU (llywodraethol ac anllywodraethol) i fabwysiadu mesurau ataliol i leihau'r risg o argyfyngau amgylcheddol, i sefydlu cynlluniau wrth gefn, ac i gymryd camau cyflym ac effeithiol i ymateb i argyfyngau amgylcheddol sy'n deillio o'u gweithgareddau. |
| **Mesur Drafft Diwygio Cyfraith Sifil** | Bydd y Mesur drafft yn moderneiddio agweddau pwysig ar y gyfraith sy'n ymwneud ag iawndal, gan gynnwys ehangu'r categori o bobl sy'n gymwys i hawlio iawndal am brofedigaeth a dibynyddion yn dilyn damweiniau angheuol, effaith y fforffed ar etifeddiaeth, y ffordd y mae llog yn daladwy ar ddyledion dyfarniad ac y mae iawndal yn cael ei gyfrifo a phan mae apeliadau mewn gwrandawiadau disgyblaeth bargyfreithwyr yn cael eu clywed. |
| **Mesur Drafft Symleiddio Mewnfudo** | Bydd y Mesur drafft hwn yn disodli nifer o'r Deddfau Mewnfudo presennol, sy'n dyddio'n ôl i 1971, gydag un Ddeddf wedi'i symleiddio. |